Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.


This document is available in Welsh as well as English.

Gorffennaf – Medi 2025-26

## Diweddariad chwarterol ymweliadau annibynnol â dalfeydd:

## Gorffennaf – Medi 2025 – Data o ddalfeydd


| Cyfanswm yr oedolion wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm y gwrywod | Cyfanswm y benywod | Cyfanswm yr unigolion rhyngryw | Cyfanswm yn anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1857 | 93 | 1950 | 1591 | 345 | 1 | 13 |



Gorffennaf – Medi 2025-26

## Gorffennaf–Medi 2025 – Data o ymweliadau annibynnol â dalfeydd

| Nifer yr ymweliadau annibynnol â dalfeydd | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa adeg ymweliadau annibynnol â dalfeydd | Cyfanswm yr oedolion wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa nad yw ar gael | Nifer yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa yr arsylwyd arnynt | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa yr ymwelwyd â nhw | Cyfanswm y gwrywod wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm y benywod wedi'u cadw yn y ddalfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 55 | 153 | 148 | 4 | 28 | 29 | 96 | 115 | 16 |





**Ymwelwyr annibynnol gweithredol â dalfeydd: 15**


- Sir Benfro: 5
- Powys: 5
- Ceredigion: 2
- Sir Gaerfyrddin: 3


*Ar hyn o bryd, mae tri ymgeisydd newydd yn y broses o gael eu hyfforddiant cynefino.*
*Mae un gwirfoddolwr wedi gadael.*
*Mae tri gwirfoddolwr yn cymryd seibiant dros dro o'r cynllun.*


Gorffennaf – Medi 2025-26

**Amseroedd ymweliadau:**



Gorffennaf – Medi 2025-26

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun:**

| |
|---|
| **Materion o ran staffio**<br>• Yn ystod y chwarter hwn, gwelwyd cynnydd yn nifer y pryderon a godwyd am broblemau staffio yn gyson ar draws yr holl ddalfeydd, gan awgrymu bod yr heriau'n berthnasol i'r sefydliad cyfan yn hytrach nag yn ddigwyddiadau unigol. Mae'r adborth gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn nodi bod y pwysau ar staff yn cael effaith ar faterion gweithredol, cyflenwi adnoddau cyfleusterau ac wedi arwain at gynnydd yn yr amser y mae'n cymryd i gludo unigolion a gedwir yn y ddalfa.<br>• Profodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nifer o ymweliadau'n cael eu canslo, gyda nifer o ddalfeydd yn cau yn sydyn dros y chwarter diwethaf.<br>• Yn ystod un ymweliad, nid oedd unrhyw staff i hebrwng ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa a gofynnodd yr ymwelwyr a fyddai'r ddalfa yn gallu cynorthwyo'r unigolion hynny yn y ddalfa yr oedd angen rheoli eu risg ar lefel uwch, a'u harsylwi'n gyson i sicrhau eu diogelwch.<br>• Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn bwriadu uwchgyfeirio'r mater hwn drwy'r Bwrdd Plismona er mwyn deall y modelau staffio a'r cynaliadwyedd gweithredol o fewn Heddlu Dyfed-Powys. |
| **Cau gorsafoedd**<br>• Fel y cyfeiriwyd ato uchod, canlyniad problemau staffio yw bod ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi profi nifer o ymweliadau'n cael eu canslo mewn dalfeydd gwahanol, heb gael eu hysbysu ymlaen llaw.<br>• Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cysylltu â Phennaeth y Ddalfa ynghylch gwella cyfathrebu rhwng yr heddlu a'r swyddfa i sicrhau nad oes unrhyw ymwelwyr annibynnol â dalfeydd na staff allanol (gweithiwr gofal iechyd proffesiynol) yn teithio'n ddiangen. Er bod hyn wedi gwella, mae gorsafoedd yn parhau i gau heb rybudd ymlaen llaw. Roedd un digwyddiad lle cafodd staff eu hailgyfeirio oherwydd absenoldeb salwch byr rybudd yn ystod mis Medi. |
| **Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, galwadau opsiwn 1 ac eitemau crefyddol** |

- Mae problemau mewn perthynas â darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn parhau oherwydd diffyg ymarferwyr sefydlog yn y ddalfa yn Aberhonddu. Mae pryderon yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ymwneud â'r canlynol:
  - Anawsterau parhaus o ran cael mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol o bell i gael cyngor meddygol ynglŷn ag unigolion a gedwir yn y ddalfa.
  - Pryderon am y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hynny sydd wedi'u lleoli yn y Drenewydd, sy'n teithio'n bell i weithio yn Aberhonddu tra bod dalfa y Drenewydd ar gau, ac yn gyrru adref ar ôl shifft 12 awr.
  - Codwyd ymholiad ynghylch y newidiadau i 'Addasrwydd i Ryddhau' (asesiad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n penderfynu a all yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa adael y ddalfa ar ôl pennu dull o'i ryddhau) ar gyfer unigolion a gedwir yn y ddalfa sydd wedi'u cyhuddo o droseddau rhywiol yn erbyn plant – a yw hyn yn bosibl trwy'r gwasanaeth ffôn o bell a elwir yn 'Visionable'.
- Fel y nodwyd yn niweddariad y chwarter blaenorol, mae'r heddlu wedi ymateb gan nodi nad yw'r contract meddygol yn cynnwys darpariaeth sefydlog ar gyfer Aberhonddu oherwydd problemau ynghylch y gost ariannol o'i gymharu â'r angen a'r galw yn y ddalfa.
- O ran materion eraill, cofnodwyd achos yn Nafen, lle gadawyd y blwch yn cynnwys meddyginiaeth ac eitemau meddygol ar agor. Yn sgil ymholiadau'r heddlu, darganfuwyd bod yr arweinydd meddygol wedi cael cyflenwad o stoc a bod yr eitemau wedi'u gosod dros dro yn y lleoliad a ganfuwyd gan yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, tra roedd yn cael gafael ar weddill y stoc. Cafwyd hyd i'r eitemau meddygol yn yr oergell yn ardal loceri ar gyfer unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ac roedd angen eu cadw ar y tymheredd cywir. Cyfaddefodd yr arolygydd nad oedd hyn yn briodol a rhoddodd gyfarwyddyd mai'r oergell gywir y dylid fod wedi ei defnyddio oedd yr un y tu ôl i'r ddesg yn y ddalfa.

**<u>Atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw</u>**

- Y pryder ynghylch atgyweiriadau oedd yr un mwyaf amlwg dros y chwarter diwethaf. Yn dilyn cyfarfod diwethaf panel ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, datgelwyd bod pryderon ychwanegol ynghylch glendid a materion yn ymwneud â'r dŵr ar ôl i waith adnewyddu gael ei drosglwyddo mewn dalfa benodol. Nodwyd hefyd yn Aberystwyth, ar ôl i waith adnewyddu ddigwydd ym mis Gorffennaf, fod ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi adrodd bod y llawr y tu allan i un o'r celloedd yn chwalu ac wedi'i lenwi â llenwr, ac nad oedd y

gwaith wedi ei gwblhau eto, a bod y fainc yn ardal derbyn unigolion i'r ddalfa wedi'i chymryd i ffwrdd, a bod y staff yn gofyn am ei dychwelyd.

- Hefyd, adroddodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am gyfres o atgyweiriadau heb eu cyflawni, gan gynnwys:
  - System awyru/gwresogi ddiffygiol.
  - Llabed mwg yn un o'r celloedd, sydd wedi golygu na ellir defnyddio'r gell.
  - Draenio annigonol yn yr iard ymarfer corff. Pan fydd cawod drom, mae dŵr yn dod i mewn i'r adeilad gan achosi perygl i iechyd a diogelwch.
  - Mae giât electronig yr iard gefn yn agor yn ysbeidiol.
  - Nid yw'r giât ddiogelwch allanol na'r larymau affräe yn gweithio.
- Cododd hyn gwestiynau ehangach ynghylch y prosesau y cytunwyd arnynt rhwng y ddalfa a'r adran ystadau (y tîm sy'n rheoli atgyweiriadau) o ran sut mae atgyweiriadau ac adnewyddiadau'n cael eu rheoli. Cyfarfu'r SCHTh ynghyd â Phennaeth Gwasanaethau'r Ddalfa a'r Rheolwr Ystadau i drafod y prosesau a sefydlu'r canlynol: Os bydd angen atgyweiriad,
  - bydd dyfais dracio llif gwaith (system archwilio fewnol yr heddlu ar gyfer cymorth) yn cael ei ychwanegu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
  - Os yw'r atgyweiriad yn golygu bod yn rhaid cau cell, mae angen tynnu sylw at hyn yn y ddyfais dracio gan nodi amser targed gofynnol ar gyfer ei gwblhau, a'r awgrym yw y dylai rhywun ddod i wneud y gwaith atgyweirio o fewn 24 awr.
  - Dylai'r rhingyll neu Swyddog y Ddalfa a Thywys sydd wedi mewnbynnu'r wybodaeth yn y ddyfais dracio, roi gwybod i arolygwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa. Bydd arolygwyr hefyd yn cael eu hatgoffa i wirio sut mae unrhyw atgyweiriadau rhestredig ar y ddyfais dracio yn mynd yn eu blaen.
- O ran y rhaglen adnewyddu, mae'r broses bresennol wedi'i chytuno a bydd yn cael ei chynnal. Y broses bresennol yw:
  - Bydd y Rheolwr Ystadau yn cerdded o amgylch y safle gyda'r contractwr i weld y gwaith adnewyddu.
  - Yn dilyn hyn, bydd staff o'r adran iechyd a diogelwch yn cerdded o gwmpas i fynd trwy bopeth yn fanwl i sicrhau nad oes unrhyw eitemau'n cael eu gadael ar ôl na gwaith is na'r safon wedi'i gyflawni.
  - Yna bydd yr uned yn cael ei harchwilio cyn i'r arolygydd ailstocio ac ailagor y ddalfa.

- Bydd unrhyw ddiffygion a ganfyddir yn cael eu dwyn i sylw'r Rheolwr Ystadau ar unwaith gan fod gwarant ar bob gwaith adnewyddu am 12 mis ar ôl ei gwblhau.

- Bydd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn parhau i fonitro faint o amser y mae'n cymryd i gwblhau'r atgyweiriadau hyn, er mwyn sicrhau bod y ddalfa'n parhau i weithredu'n effeithlon.
- Ynghyd â rhestru atgyweiriadau, mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi cynnig gosod teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd loceri eiddo a'r gegin i gynorthwyo staff sy'n wynebu cwynion mewn dalfa benodol.

**<u>Oedi cyn mynd i'r ddalfa a mynediad i'r anabl</u>**

- Er y bu problemau o ran canslo ymweliadau oherwydd cau gorsafoedd, mae'n dda nad oes unrhyw oedi wedi bod oherwydd yr heriau o ran staffio, nac oherwydd bod y staff yn defnyddio esgusodion eu bod yn rhy brysur i dderbyn ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa. Yn y chwarter diwethaf, nid oedd unrhyw ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi adrodd am oedi cyn iddyn nhw gael ymweld â dalfa, nac unrhyw bryder yn ymwneud â mynediad i bobl anabl ymhlith unigolion yn y ddalfa.
- Tynnodd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd sylw at y ffaith fod dros 25% o gynlluniau'n genedlaethol yn Ch1 wedi nodi bod nifer o ymwelwyr wedi rhoi'r gorau i'w hymweliadau neu wedi'u gohirio, yn aml oherwydd prinder staff neu amseru anghyfleus i'r staff. Dosbarthodd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ar y cyd â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu lythyr i bob heddlu ynghylch oedi pan fod ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ceisio ymweld â dalfeydd, gan atgoffa swyddogion o'r ddyletswydd statudol a'r amgylchiadau lle caniateir oedi a lle na chaniateir oedi.

**<u>Sylwadau cadarnhaol</u>**

- Gwnaeth yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nifer o sylwadau cadarnhaol yn ystod y chwarter diwethaf. Yn ystod y pum ymweliad penodol lle nododd ymwelwyr ganfyddiadau cadarnhaol, fe nodon nhw'r canlynol:
    - *"Popeth wedi'i wirio ac mae popeth yn iawn. Yn lân a thaclus yn y ddalfa. Yr ystafell fforensig wedi'i selio. Y gegin mewn cyflwr da. Y broses o gofrestru wrth y ddesg flaen yn urddasol. Arferion da wrth gofrestru. Roedd y rhingyll oedd yn cofrestru a'r swyddogion*

*arestio yn trin yr unigolyn a oedd yn cael ei gadw yn y ddalfa gydag urddas. Roedd arferion da wrth gofrestru unigolion i'r ddalfa. Rhoddwyd hawliau a gwybodaeth glir i'r unigolyn a oedd yn cael ei gadw yn y ddalfa. Ymarfer tryloyw iawn".*

- *"Llwyddodd y staff i ymdopi'n dda iawn ag unigolyn ifanc aflonyddgar iawn a oedd yn cael ei gadw yn y ddalfa".*
- *"O ystyried ymddygiad yr unigolyn a oedd yn cael ei gadw yn y ddalfa, dylid canmol staff y ddalfa a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am y sylw a roesant i anghenion y dyn ifanc, er gwaethaf ei ymddygiad ofnadwy."*
- *"Er iddo wrthod ein gweld ni, roedd yr unigolyn yn y ddalfa yn sicr yn derbyn gofal gwych. Roedd yn cael ei wahodd yn rheolaidd am fwyd a diod, yn cael deunydd darllen ac yn y blaen. Ychydig cyn i ni adael gofynnodd am bryd o fwyd a siocled poeth. Gwelsom hyn yn cael ei baratoi a'i weini."*
- *"Ymgysylltodd yr heddlu a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gadarnhaol ag ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Gwnaeth un unigolyn yn y ddalfa, oedd â nifer o broblemau iechyd corfforol, sylw ar ba mor gymwynasgar y bu staff y ddalfa a staff gofal iechyd. Roeddent wedi rhoi matres mwy trwchus iddo, gan sicrhau ei fod mor gyfforddus ag y gallai fod, wedi trefnu meddyginiaeth briodol ac wedi cadw llygad ar ei lesiant yn rheolaidd."*

- Yn ystod 55 o ymweliadau a gynhaliwyd yn ystod Ch2, nododd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod y staff yn gymwynasgar ar 20 achlysur, fod y staff yn foneddigaidd ar ddau achlysur, ac ar ddau achlysur arall nodwyd bod y staff yn gwrtais.
- Ar dri achlysur, dywedodd ymwelwyr fod staff wedi meithrin perthynas wych â'r unigolyn yn y ddalfa:
  - *"Esboniodd y rhingyll xxx fod ymddygiad y sawl oedd wedi cael ei dderbyn i'r ddalfa neithiwr wedi bod yn anodd. Roedd hi wedi bod yn gweiddi ac yn taro a chicio'r drws oherwydd ei bod wedi meddwi, ond y bore yma, ar adeg ein hymweliad, roedd yn ymddangos yn dawel a gwelwyd cydberthynas dda rhyngddi hi a'r staff."*
  - *"Gwelsom gydberthynas dda rhwng staff a'r sawl a oedd yn y ddalfa a oedd yn cael gosod gefynnau arno i baratoi i adael y ddalfa."*
  - *"Gwelwyd cydberthynas dda rhwng y staff a'r rhai yn y ddalfa, ac ymatebion cwrtais i'w hymholiadau a'u ceisiadau."*
- Ar bedwar achlysur, cyfeiriodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd at driniaeth gadarnhaol benodol o unigolion yn y ddalfa.
- Mae'r sylwadau uchod yn dangos y craffu gwrthrychol a wneir gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wrth gynnal eu hymweliadau.

**Materion 'eraill' a nodwyd**

- **Eitemau crefyddol** – mae dau achos wedi'u hadrodd yn Aberystwyth lle nododd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nad oedd ystod ehangach o eitemau crefyddol yn y lleoliad o'i gymharu â dalfeydd eraill. Yn Nafen, roedd problem barhaus ynghylch yr eitemau a oedd yn cael eu storio yn ystafell loceri'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol er gwaethaf y ffaith bod cytundeb i storio'r eitemau hyn ar silff. Ers hynny mae'r heddlu wedi storio'r eitemau mewn blychau unigol o fewn yr ystafell eiddo, gan ddilyn yr arfer da a nodwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn Aberystwyth.
- **Stociau bwyd** – Adroddodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod stociau bwyd yn Nafen yn isel, ac nad oedd eitemau heb glwten i'r unigolion hynny yn y ddalfa oedd â gofynion dietegol penodol. Ers hynny mae Dafen wedi ailgyflenwi eu stociau bwyd ac wedi cynghori y dylid prynu eitemau heb glwten pan fo angen er mwyn osgoi unrhyw wastraff bwyd neu wariant diangen. Roedd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn Aberhonddu wedi nodi bod rhai bwydydd yn agosáu at eu dyddiad terfyn ac wedi gofyn a ellid rhoi'r bwyd i fanc bwyd. Nid yw'r heddlu wedi ymateb i'r ymholiad hwn eto.
- **Cyllyll a ffyrc papur** – Ers mis Gorffennaf, mae staff y ddalfa wedi cyflwyno cyllyll a ffyrc papur i leihau'r perygl i unigolion yn y ddalfa a staff. Cyn hyn, roedd cyfuniad o lwy a fforc ('sporks') plastig yn cael eu defnyddio, ond roedd unigolion yn y ddalfa wedi bod yn eu hogi i'w defnyddio fel arf, a daeth eu defnydd i ben. Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi nodi bod y cyllyll a ffyrc papur newydd hyn yn aneffeithiol wrth fwyta prydau poeth, ac yn ystyried bod eu defnydd yn anymarferol.
- **Golchi dillad** – Adroddwyd am ddau achos dros y chwarter diwethaf o brinder blancedi yn cael eu dychwelyd i Ddafen a'r Drenewydd. Mae'r heddlu yn annog staff ar draws pob lleoliad i gael pwynt cyswllt penodol i wirio'n rheolaidd ddillad sy'n cael eu hanfon i'w golchi, gan gadw golwg ar yr hyn sy'n dod i mewn a rhoi tagiau enw ar yr eitemau a anfonir i'w golchi i sicrhau eu bod yn cael eu dychwelyd.
- **Diffyg llyfr mewngofnodi –** Ar ôl cyfarfod panel yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ar gyfer Ch1, hysbyswyd yr ymwelwyr y bydd gofyn iddynt fewngofnodi wrth ddesg y ddalfa, er mwyn cydymffurfio â'r weithdrefn dân a sicrhau eu diogelwch. Cysylltodd Pennaeth Gwasanaethau'r Ddalfa â phob dalfa i ddweud wrthyn nhw i gydymffurfio â'r weithdrefn hon ac i sicrhau bod hyn yn gyson. Ym mis Gorffennaf, adroddodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nad oedd gan Ddafen, y Drenewydd nac Aberhonddu lyfrau mewngofnodi. Credir bod hyn wedi'i gywiro bellach.

- **Menig latecs** – Yn Nafen, dywedodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod dyddiad defnyddio olaf yr eitemau hyn wedi bod. Ers hynny mae'r heddlu wedi cael gwared â nhw ac wedi ailgyflenwi stociau.

**Cyfarfod perfformiad y ddalfa** a chyfarfodydd am ddigwyddiadau trwch blewyn

- Mae SCHTh yn parhau i fynychu cyfarfodydd perfformiad misol y ddalfa ac yn fwyaf diweddar fe'i gwahoddwyd i fynychu'r cyfarfodydd digwyddiadau trwch blewyn a digwyddiadau niweidiol misol ar y cyd â swyddogion Iechyd a Diogelwch. Diffinnir digwyddiad trwch blewyn fel digwyddiad heb ei gynllunio nad achosodd anaf ond a oedd â photensial i wneud hynny; a digwyddiadau sy'n arwain at niwed, anaf, salwch neu ddifrod i bobl neu eiddo yw digwyddiadau niweidiol.
- Mae'r cyfarfodydd hyn yn caniatáu gwell dealltwriaeth ynghylch gweithdrefnau'r ddalfa rhwng ymweliadau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, ac yn rhoi'r tryloywder a'r sicrwydd hwnnw bod dysgu wedi'i nodi. Mae gwybodaeth a ddysgir o'r cyfarfodydd hyn yn cael ei rhannu ag ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn eu diweddariadau wythnosol at ddibenion gwyliadwriaeth.

**Recriwtio**

- Mae gennym dri aelod newydd o staff a fydd yn cael hyfforddiant cynefino. Byddant wedi'u lleoli yn ardal Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.
- Mae un aelod wedi gadael ers hynny, ac mae tri aelod ar seibiant o'r cynllun.
- Mae SCHTh wedi cynnal yr ymgyrchoedd recriwtio canlynol dros y chwarter diwethaf:
  - Presenoldeb mewn digwyddiad gwirfoddoli ar gampws Prifysgol Abertawe.
  - Cyflwyniad i gadetiaid gwirfoddol yr heddlu, sy'n agosáu at 18 oed.
  - Presenoldeb yn Sioe Sir Benfro.
  - Presenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru.

**Hyfforddiant a dysgu**

Gorffennaf – Medi 2025-26

- Yn ystod y chwarter diwethaf, mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi cael y cyfleoedd dysgu canlynol:
  - Hyfforddiant cyfrinachedd yn benodol i'w rôl gyda Swyddog Diogelu Data.
  - Ymweld â swyddogion a'u harsylwi'n cynnal eu hyfforddiant er Diogelu'r Cyhoedd ynghylch defnyddio grym yn y ddalfa.
  - Cael hyfforddiant ar brosesau ystyriol o drawma gan hyfforddwr y ddalfa sy'n canolbwyntio'n benodol ar fenywod yn y ddalfa, a deall y weithdrefn bresennol ar gyfer cofrestru plant yn y ddalfa.

**Ymateb yr heddlu:**

Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, dyma farn yr Arolygydd Andrew Rogers, sy'n gwneud sylwadau ar ran Heddlu Dyfed-Powys am y chwarter diwethaf:

*Rwy'n falch o weld bod y berthynas waith gref yn parhau rhwng ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a staff dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n bleser gweld cymaint o sylwadau cadarnhaol gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd mewn perthynas â'r croeso a gawsant gan staff dalfeydd, yn ogystal â'r sylwadau cadarnhaol gan unigolion yn y ddalfa a drosglwyddwyd i ymwelwyr ynghylch eu triniaeth yn y ddalfa.*

*Nodaf fod cynnydd wedi bod yn nifer y pryderon am faterion staffio yn ystod y chwarter hwn. Fodd bynnag, byddwn i'n dadlau'n gryf nad yw hwn yn fater sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan fel yr awgrymwyd. Mae'r brif broblem gydag adnoddau wedi bod yng ngogledd Powys, gyda'r Drenewydd wedi profi colled ddigynsail o swyddogion y ddalfa hyfforddedig. Mae'r mater hwn bellach wedi'i gywiro gyda thri swyddog y ddalfa newydd wedi'u hanfon i weithio yn y ddalfa yn y Drenewydd yn barhaol. Dilynir hyn gan ringylliaid gwydn ychwanegol sy'n paratoi i weithio yn y ddalfa, a fydd yn ymgymryd â'u cwrs cychwynnol ar weithio yn y ddalfa ym mis Ionawr 2026 ar ôl bod yn llwyddiannus yn y broses ddyrchafu ddiweddar.*

*Nid yw'r mater penodol a godwyd yn Aberteifi yn ddigwyddiad rheolaidd ac roedd hwn yn benderfyniad gweithredol dan oruchwyliaeth prif swyddogion. Sicrhaodd y penderfyniad i gau'r ddalfa yn Aberteifi fod dalfa'r Drenewydd wedi aros ar agor drwy gydol Sioe Frenhinol Cymru, a oedd yn angenrheidrwydd gweithredol.*

Gorffennaf – Medi 2025-26

*Mae Gwasanaethau'r Ddalfa wedi cael nifer o drafodaethau gyda SCHTh mewn perthynas â chau gorsafoedd yn ystod y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw Gwasanaethau'r Ddalfa yn ymwneud â chau neu ddarparu adnoddau ar gyfer unedau dalfa Heddlu Dyfed-Powys, ac mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ymwybodol o hyn. Rheolir hyn gan gomanderiaid yr uned reoli sylfaenol. Er bod Gwasanaethau'r Ddalfa wedi gweithio'n galed i sicrhau bod pob parti angenrheidiol yn ymwybodol ymlaen llaw o gau gorsafoedd, mae'n amhosibl rhoi gwybod am gau dalfeydd ar y funud olaf pan fo hynny'n digwydd y tu allan i oriau swyddfa neu oherwydd salwch ar y funud olaf. Nid yw hyn wedi effeithio ar ddarpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol na'r contract meddygol.*

*O ran darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Aberhonddu, nid oes unrhyw ddarpariaeth sefydlog yn y ddalfa honno o hyd, ond mae gwasanaeth galwadau o bell Visionable ar gael. Gwnaed gwelliannau i'r cynllun peilot hwnnw sydd wedi arwain at osod technoleg Visionable ym mhob un ddalfa yn Heddlu Dyfed-Powys ac mae pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system. Mae hyn yn sicrhau y gall nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled yr heddlu weithredu ar geisiadau Visionable, gan ganiatáu iddynt ymateb i'r ceisiadau hyn os bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn brysur. Ystyriwyd bod y gwasanaeth hwn yn addas i'w ddefnyddio mewn cyfweliadau addasrwydd i ryddhau gan arweinwyr clinigol Mitie (darparwr meddygol).*

*Nodaf y sylwadau ynghylch atgyweiriadau i'r ddalfa ond mae'r broses ar gyfer gwaith cynnal a chadw bach i'r ddalfa yn ogystal â throsglwyddo gwaith adnewyddu mwy wedi'i thrafod a'i chadarnhau gyda'r holl bartïon perthnasol. Trafodwyd hyn yn fanwl yn ystod cyfarfod diwethaf y panel gydag ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.*

*Hoffwn ddiolch i'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am eu hadborth parhaus, eu cefnogaeth i'n hunedau dalfa, a'u presenoldeb mewn Paneli Craffu ar Ddalfeydd sy'n ein galluogi i barhau i fod yn atebol ac yn dryloyw o ran y ffordd yr ydym yn trin unigolion a gedwir yn y ddalfa.*